Cofnodion **CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gyfrwng fideo gynadledda ac yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 18 Hydref 2023, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, Mrs. J. Hughes, Mrs. D.L. King, B. Mellor, Ms. R. Roberts, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**19. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs. J.M. Evans a Miss S. Roberts ac hefyd gan Ms. H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref.

**20. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth bob cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 20.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn 81 Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**CAIS RHIF:** 45/2020/0696<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu un annedd a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Mason Roberts o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 20.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Canolfan y Dderwen, Fforddlas, Y Rhyl |

| | |
|---|---|
| | **<u>WARD:</u>** Cefndy<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs. D. King<br>Ms. R. S. Roberts<br>Sedd wag<br><br>**<u>CAIS RHIF</u>:** 45/2023/0668<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Amrywio amod 2 caniatâd cynllunio 45/2020/0131 i ddiwygio rhestr y cynlluniau cymeradwy i ganiatáu diwygio'r dyluniad. Manylion y Cynllun Gweithredu mewn Llifogydd, darpariaeth ar gyfer adar sy'n nythu ac ystlumod sy'n clwydo, cynllun tirlunio a threfniadau gweithredu a gyflwynwyd yn unol ag amodau 3, 4, 6 a 10 caniatâd cynllunio rhif 45/2020/0131<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Ms Kate Brookes, Cyngor Sir Ddinbych<br><br>***<u>PENDERYFNIAD</u>****: Dim gwrthwynebiad* |

**21. <u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi diweddu.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: …..15.11.2023………..